PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Dyma fi!

## Adduned ar gyfer babanod yng Nghymru

Datblygwyd yr adduned hon i amlygu safbwynt y baban, gan ganolbwyntio ar hawliau ac anghenion babanod yn ystod eu 1000 diwrnod cyntaf. Caiff ei lywio gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i gydgynhyrchu â rhieni, eu babanod a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae anghenion unigryw gan fabanod ac maen nhw'n fwy agored i niwed nag eraill oherwydd nad ydyn nhw'n gallu mynnu eu hawliau, felly mae'r adduned hon yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried.

Mae'r adduned hon yn cydnabod bod pob baban a'u hoedolion (rhieni, gofalwyr neu warcheidwaid) yn wahanol, ac y bydd angen mwy o gymorth ar rai nag eraill.

**Ysgrifennwyd yr adduned hon gan ddefnyddio llais y baban.** Mae'n disgrifio'r hyn mae ar fabanod ei angen gan eu hoedolion, yr hyn sydd ei angen ar eu hoedolion er mwyn cefnogi eu baban a gofalu amdanyn nhw a'r hyn mae ar fabanod a'u hoedolion eu hangen gan gymunedau.

**Fi fy hun ydw i, ac rwy'n dibynnu arnat ti i'm caru ac i'm helpu i ddeall y byd mawr hwn. Dyma fy llais.**

## Rydyn ni i gyd yn wahanol ond mae ein hangen am gariad a gofal yr un fath.

- **Mae arna i angen** i'm hoedolion fy mwydo a'm cadw i'n ddiogel, yn gynnes ac yn lân.
- **Mae arna i angen** i'm hoedolion ofalu am fy iechyd corfforol ac emosiynol.
- **Mae arna i angen** i'm hoedolion fy nghadw i'n agos, fy nghysuro, siarad â mi a dangos i mi fy mod i'n bwysig.
- **Mae arna i angen** i'm hoedolion chwarae gyda fi, canu i mi, darllen i mi a dangos pethau newydd i mi er mwyn i mi allu dysgu a thyfu.
- **Mae arna i angen** i'm hoedolion geisio deall sut rwy'n teimlo. Fyddan nhw ddim yn gywir bob amser ond mae hynny'n iawn; gallwn ni ddysgu gyda'n gilydd.

## Mae fy oedolion yn bwysig i mi, mae angen eu cefnogi, eu gwerthfawrogi ac ymateb i'w hanghenion hwythau.

- **Mae ar fy oedolion angen** teimlo bod rhywun yn gwrando a bod modd iddyn nhw gael cymorth gydag unrhyw anawsterau byddan nhw'n eu profi, er mwyn iddyn nhw fedru gofalu amdanaf fi.
- **Mae ar fy oedolion angen** cael yr wybodaeth gywir, ar yr adeg gywir, yn y ffordd gywir iddyn nhw.
- **Mae ar fy oedolion angen** treulio amser yn dod i fy adnabod i. Rydw i'n aelod newydd o'r teulu, rydyn ni'n dysgu gyda'n gilydd.
- **Mae ar fy oedolion angen** gallu bodloni fy anghenion sylfaenol, fel cael digon o fwyd, dillad a lle diogel i fyw.
- **Mae ar fy oedolion angen** mannau croesawgar, gweithgareddau a grwpiau gallan nhw eu mwynhau gyda mi, er mwyn i ni allu dysgu, chwarae a thyfu gyda'n gilydd.

## Mae arnaf fi a'm hoedolion angen cymorth gan ein cymunedau i roi'r cychwyn gorau i mi.

- **Mae angen** i gymunedau wrando arnon ni, er mwyn i ni gael llais wrth lywio polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio arnon ni.
- **Mae angen** i gymunedau sylweddoli pa mor bwysig a heriol yw'r adeg hon, bydd pob caredigrwydd yn ein helpu ar hyd ein taith.
- **Mae angen** i gymunedau gyfrannu at fy nghadw i'n ddiogel, fy ngwarchod a'm meithrin wrth i mi dyfu.
- **Mae angen** i gymunedau ddarparu gwybodaeth a chyngor clir, cyfredol, er mwyn i ni deimlo'n wybodus ac wedi'n cefnogi.
- **Mae angen** i gymunedau ddarparu lleoedd croesawgar neu weithgareddau hawdd eu cyrraedd, sy'n lân, yn ddiogel ac yn hwyl i mi chwarae.

*Datblygwyd yr Adduned hon gan y Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (CREYN) a'i chydlynu gan Brifysgol Abertawe a Plant yng Nghymru.*